# Gwydnwch ac adferiad amgueddfeydd ar ôl Covid-19

Mae arolwg Sbotolau 2022 yn rhoi tystiolaeth o’r tarfu a gafwyd ar waith amgueddfeydd yn sgil Covid-19. Yn sgil cyfyngiadau agor a heriau datblygu a pharhad y gweithlu yn 2022, mae niferoedd yr ymwelwyr, gweithgareddau dysgu a chyfrano-giad gwirfoddolwyr yn parhau i fod islaw’r lefelau cyn y pandemig. Roedd y cymorth ariannol a rod-dwyd i’r sector amgueddfeydd yn ei alluogi i oroesi. Mae’r gwaith adfer yn mynd rhagddo, ond nid yw wedi’i gwblhau eto.

**Yn 2022:**

- Dychwelodd niferoedd yr ymwelwyr ag amgueddfeydd i 69 y cant o’r lefelau cyn y pandemig.
- Mae dros draean o amgueddfeydd yn parhau i ddioddef tarfu i’w patrwm gweithredu arferol.
- Roedd cyllidebau gweithredu amgueddfeydd yn bennaf yn destun cynnydd islaw chwyddiant neu ostyngiad.
- Mae 32 y cant yn llai o wirfoddol-wyr yn y gweithlu o gymharu ag yn 2019. Cynyddodd amgueddfeydd prifys-golion eu nifer o wirfoddolwyr, a chynhaliodd amgueddfeydd an-nibynnol eu sail o wirfoddolwyr nhw yn well nag amgueddfeydd â strwythurau llywodraethu eraill.
- Mae her o hyd, yn enwedig oherwydd capasiti gweithlu amgueddfeydd, wrth ddenu ymweliadau eto gan ysgolion.

**Nifer yr ymwelwyr ag amgueddfeydd (corfforol)**




Adroddiad Ymchwil Llawn:
Chaplin E, Henderson J, Parkes P (2023).
Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2022.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 83/2023.
Ar gael yn:
https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Oriau agor amgueddfeydd ar ôl Covid



Mae **dros draean** o amgueddfeydd yn parhau i **ddioddef tarfu** i’w patrwm gweithredu arferol

## Nifer y gwirfoddolwyr ar ôl Covid



Mae **32% yn llai** o wirfoddolwyr yng ngweithlu’r amgueddfeydd o gymharu ag yn **2019**

**GEIRIAU’R YMATEBWYR**

*“Mae staffio yn her, ar ôl Covid, afiechydon sy’n parhau. Mae recriwtio staff, yn enwedig staff rhan amser/dros dro, yn heri-ol, ac mae hynny’n wir ym mhob rhan o [enw’r sefydliad]”*

*“Effeithiodd Covid-19 yn ddifrifol ar 2021/22, roedd data perfformiad ar gyfer pob agwedd ar yr amgueddfa yn wael”*

Adroddiad Ymchwil Llawn:
Chaplin E, Henderson J, Parkes P (2023).
Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2022.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 83/2023.
Ar gael yn:
https://www.llyw.cymru/arolwg-sbotolau-ar-amgueddfeydd-2022

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government